**Y Gwir Anrh/Rt Hon Mark Drakeford AS/MS**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mike Hedges AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig
Senedd Cymru

SeneddCCERA@senedd.cymru

3 Tachwedd 2020

Annwyl Gadeirydd

Rwy'n ysgrifennu i roi gwybod ichi y bydd uwchgynhadledd rhif 34 y Cyngor Prydeinig–Gwyddelig yn cael ei chynnal yn ddiweddarach yr wythnos hon. Cytunodd y Gweinyddiaethau sy'n Aelodau i ohirio'r Uwchgynhadledd a oedd i fod i gael ei chynnal yn gynharach yn y flwyddyn. Bydd yn cael ei chynnal yn rhithwir gan Lywodraeth yr Alban.

Bydd Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru a minnau yn cynrychioli Llywodraeth Cymru yn y gynhadledd. Bydd yr uwchgynhadledd yn canolbwyntio ar ddatblygiadau gwleidyddol diweddar, gan gynnwys ein hadferiad economaidd o coronafeirws.

Bydd communiqué yn cael ei gytuno gan y Cyngor yn yr uwchgynhadledd a byddaf yn rhoi gwybod i Aelodau maes o law am fanylion cyhoeddi'r communiqué ac am ganlyniadau'r uwchgynhadledd.

Cyn yr uwchgynhadledd, cynhelir cyfarfod Gweinidogol sector gwaith Amgylchedd y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig i adolygu gwaith ar y cyd ar yr amgylchedd morol, newid yn yr hinsawdd a rhywogaethau ymledol nad ydynt yn frodorol. Bydd Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig yn cynrychioli Llywodraeth Cymru yn y cyfarfod hwn.

Mewn datganiad ar gysylltiadau rhynglywodraethol yr wythnos diwethaf, gydag adroddiad blynyddol cyntaf Llywodraeth Cymru i'r Senedd ar gysylltiadau rhynglywodraethol ar gyfer y cyfnod rhwng Ebrill 2019 a Mawrth 2020, a osodwyd ar 27 Hydref, tanlinellais bwysigrwydd ein perthnasoedd gyda'n partneriaid yn y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig. Dyma berthynas a fydd, gobeithio, yn parhau i dyfu mewn pwysigrwydd wrth i'r cyngor barhau i ddangos yr hyn sy'n bosibl ei gyflawni drwy drafod a chydweithio.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
YP.PrifWeinidog@llyw.cymru • ps.firstminister@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rwyf wedi anfon llythyr tebyg at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Mick Antoniw AS a Chadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol, David Rees AS.

Dymuniadau gorau

**MARK DRAKEFORD**